PÔS CARTREFI – TO AR Y TŶ

gan Duncan Brown
Lluniau gan Gareth Pritchard

Mae pawb am gael to bach

^

uwch ei ben weithiau

Mae cartref y pâl mewn _____

Cymraeg:

mae bob amser angen to bach ^ ar y tŷ – ond nid ar y to ei hun.

Dyma dylluan sydd yn byw mewn cloddiau ar Ynys Enlli.

Pa dylluan ydy hi? (Ticiwch)

- tylluan wen ☐
- tylluan frech ☐
- tylluan fach ☐

Ble arall mae tylluanod yn medru byw?

_____

Ble roedd **jac y do** yn nythu cyn i bobl adeiladu simneiau cyfleus ar eu tai?

_____

_____

Pam fod gan y **troellwr** guddliw gwell na **gwennol y bondo**?

_____

_____

Pam mae **cigfran** yn dewis nythu mor gynnar yn y flwyddyn – ym mis Chwefror neu ar ddechrau mis Mawrth?

_____

_____

_____

Fel pobl, mae rhai adar yn fwy cymdogol na'i gilydd.

"Mi welais jac y do. Yn eistedd ar ben to"

Dyma ddau aelod o deulu'r frân – y **gigfran** a **jac y do**. Pa un sydd fel arfer yn nythu mewn haid a pha un sydd byth yn gwneud hynny?

Fel arfer: _____

Byth: _____

Cigfran ar ei nyth yn uchel ar y clogwyn

Pam mae **cywion y wennol** yn aros mewn nyth clyd am bythefnos cyfan... tra mae **cywion y betrisen** yn gorfod rhedeg o gwmpas o fewn oriau o ddeor o'r ŵy?

_____



Dod ar fy mhen
dy sanctaidd … ***faw****?*

Byth eto! Y drws amdani'r tro nesa, bois bach.

Ble mae **ystlumod** yn gwneud eu cartrefi?

1 _____ 2 _____ 3 _____

Rhywle arall? _____

Pa ddywediad Saesneg am rywun go ryfedd sydd yn cyfeirio at **ystlumod** yn clwydo mewn clochdy eglwys?

_____ in the _____

Ble mae cartref y **troellwr**? (Ticiwch.)

Yn yr haf:

- Rhostir grugog ☐
- Copa mynydd ☐
- Glan y môr ☐

Yn y gaeaf:

- Siberia ☐
- Iwerddon ☐
- Affrica ☐

Rhywogaethau'r pôs:

brân	**crow**
cigfran	**raven**
gwennol y bondo	**house martin**
jac y do	**jackdaw**
pâl	**puffin**
petrisen	**partridge**
troellwr	**nightjar**
tylluan fach	**little owl**
tylluan frech	**tawny owl**
tylluan wen	**barn owl**
ystlum	**bat**

Atebion ar y dudalen nesaf

Atebion

Mae'r **pâl** yn byw mewn **twnnel yn y ddaear.**

Y **dylluan fach** sydd yn **byw mewn cloddiau.**
Cartrefi eraill i dylluanod: hen goed, adeiladau fel llofftydd, tai allan ffermydd, tyrau eglwysi, blychau nythu …

Nid oes gan y **troellwr** nyth i guddio ynddo fel **gwennol y bondo.**

Arferai **jac y do** nythu **mewn tyllau naturiol** mewn coed neu greigiau.

Mae'r **gigfran** yn nythu pan fydd digon o fwyd ar gael i'r cywion.

Mae **jac y do** fel arfer yn **nythu gydag eraill** o'i fath, ond fydd y **gigfran byth** yn gwneud hynny.

Mae **cywion y betrisen** yn medru **casglu bwyd a chuddio** rhag gelynion ar y ddaear ond mae **cywion y wennol yn dibynnu'n llwyr ar eu rhieni** nes iddynt ddysgu hedfan.

Gall **ystlumod** fyw mewn **llofft dan y to, hen adeilad, ceubren, ogof, hen fwyngloddfa** … yn wir, unrhyw le tawel, sych a thywyll.

Y dywediad ydy **"Bats in the belfry."**

Mae'r **troellwr** yn byw yn **yr haf ar rostir** grugog ac yn mudo i **Affrica yn y gaeaf.**